Gwerthu'r croen a wnaed yn union,
I rhyw frawd o Ddinbych dre,
Gwisga hwnw am ei *Faner*
Mor lygadog yw efe!
Gwisged Cymru alar wisgoedd
Teilwng yw o'r cyfryw barch,
*Baner Cymru* sydd yn chwifio
A'r *Amserau* yn ei arch!

Cafwyd rhagor o ddifyrrwch yn y rhifyn canlynol o'r *Punch* lle cyhoeddwyd ffug hysbysiadau geni, priodi a marwolaeth y ddau newyddiadur:

GANWYD

Hydref 6 yng ngwasgdy Gi, Lon y Swan, Dinbych, Priod Tomos Gi, ar efeilliaid. Y mae y fam a'r plant (gwryw a benyw) yn dyfod ymlaen gystal a'r disgwyliad o dan y fath amgylchiadau.

BU FARW

Medi 28, yn y Temperance Hotel, 11 St. Ann Street, Nerpwl, wedi hir gystudd o eisiau ymgeledd gymhwys, Mr Amserau Llwyd, yn y flwyddyn salaf o'i oedran. Yr oedd nychdod wedi ymaflyd yng nghyfansoddiad yr hên ŵr ers talm byd, ac yr oedd y Physygwyr enwog Creuddynfab a'r Doctor Bywbythfardd wedi rhagweld ei farwolaeth ers dwy flynedd yn ôl . . .'

Ni chyhoeddwyd Lloyd ddim ar ôl iddo werthu'r *Amserau* — digon tywyll yn wir yw ei hanes wedi i'w hysbysebion yn y *Faner* ddod i ben. Fodd bynnag, bu ei fab William Wallis Lloyd yn argraffu ambell i lyfr Cymraeg yn Lerpwl yn ystod y 1870au a'r 1880au. Yn ôl Je Aitsh, a fu'n gweithio fel cysodydd ar ei newyddiadur dimai, *y Dinesydd* ar ddiwedd yr 80au, gŵr 'gonest ond tlawd a helbulus' oedd Lloyd. Fel ei dad, nid oedd yn ŵr busnes medrus, ac 'roedd mor ddi-siâp fel llenor ac argraffydd nes peri i Isaac Foulkes ei lysenwi yn William Wallus Lloyd.

Fe ehangodd Gee faint y *Faner* ac *Udgorn y Bobl* ar unwaith, gan ychwanegu colofn at bob tudalen o'r ddau newyddiadur o ddechrau Hydref 1859 ymlaen. Ar ôl i'r dreth ar bapur gael ei diddymu yn 1861, lleihawyd pris y *Faner* i ddwy geiniog ac yn 1865 trowyd *Udgorn y Bobl* yn argraffiad rhad o'r *Faner*. Erbyn diwedd y 1860au gwerthwyd tua un mil ar ddeg o gopïau o'r ddau argraffiad bob wythnos. Tanlinella gwerthiant o'r fath y gwahaniaeth rhwng cyhoeddi newyddiadur Cymraeg yn y 1860au a'r 1840au. Gellid nodi sawl ffactor a wnaeth y dasg yn haws megis diddymu'r trethi ar newyddiaduron ac ar hysbysebion, a'r cynnydd yn y nifer o Gymry a fedrai fforddio prynu newyddiadur yn rheolaidd. Ond dylid yn sicr rhoi clod i waith arloesol yr *Amserau* yn creu darllenwyr trwy wneud prynu newyddiadur yn arferiad wythnosol i gymaint o Gymry. Teg nodi hefyd mai ychydig iawn o wahaniaeth sylfaenol oedd rhwng neges wleidyddol yr *Amserau* yn y 1840au a neges y *Faner* ugain mlynedd yn ddiweddarach. Yn ystod ei oes fe lwyddodd yr *Amserau* i droi syniadaeth feiddgar grŵp bychan o radicaliaid gwrth-eglwysig yn gredo a dderbyniwyd heb feddwl ddwywaith amdani gan ysgrifenwyr y wasg Gymraeg.

*(Diwedd)*

# 'STEDDFOD MEWN SIOP

**gan William Hughes, Talwrn**

DAETH ysgrif hynod ddiddorol John Rees Jones ar 'Awen 'Steddfod y Siop yn Lloegr', yn rhifyn Awst 1992 o'r *Casglwr*, â llu o atgofion i mi.

Yr oedd cynnal 'Eisteddfod Gadeiriol Fawr a Chystadleuon Gwaith Llaw', fel yr hysbysid hi, yn rhywbeth anghyffredin iawn a hynny am wythnos gyfa', ac eithrio prynhawn Mercher, yn Lewis's, Lerpwl, o Ebrill 18 hyd 23, 1932.

Cynigiwyd arian mawr yn wobrau a gyda llaw yr wythnos arbennig yma fe ddenwyd 29 o gorau cymysg i gystadlu, a Chôr Bro Goronwy, Môn, fu'n fuddugol.

Yr oeddwn i a'm ffrind, Florrie Miller (merch o Lanbrynmair) ymhlith y dyrfa a wyliai seremoni'r Cadeirio, brynhawn Iau, Ebrill 21ain. Cofiaf rai o'r Gorseddogion sydd yn y llun ardderchog oedd yn *Y Casglwr.*

Fel y dywed John Rees Jones yr oedd Cynan yn ei afiaith wrth ddyfynnu rhannau o'r Bryddest 'Yr Hwyl Wen'. Mae cyfansoddiadau yr eisteddfod honno, a werthid am 4 ceiniog (grôt) yn fy meddiant.

Ar ddiwedd y 'steddfod aeth fy ffrind a minnau am bryd o fwyd i'r 'Tudor' — y lle bwyta gorau yn y siop, ac wrth fynd heibio i fwrdd rhai o'r beirniaid cerdd, rhuthrodd y diweddar Owen Williams, Eglwysbach, ataf i'm llongyfarch yn frwd ar fy muddugoliaeth yn ennill y gadair! Cefais gymaint o sioc fel na cheisiais gywiro'r camgymeriad — dim ond diolch yn fawr iddo, ac ymlaen â mi i ddilyn y ferch. O edrych ar y llun eto, dichon fod yna beth tebygrwydd rhyngom, o bell o leiaf, ac yr oeddem ein dau yn gwisgo sbectol!

* * * *

YN RHIFYN Rhagfyr 1934 o'r *Ford Gron* y mae gan J. T. Jones ysgrif ar 'O.J. — Bardd y Môr', lle sonia am berffeithrwydd diwyg a saernïaeth 'Yr Hwyl Wen', ac am angerdd eithaf môr a morwyr yn ei Bryddest olaf, sef 'Rownd yr Horn', a'i dug yn agos at Goron Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1933.

Yr oedd Cynan yn un o'r tri beirniad yn hon hefyd, a dywedir iddo ddarllen darnau o gerdd O. J. Williams yn y Babell Lên, gan ychwanegu, 'y mae heli'r môr ymhob llinell bron'.

Cefais ryw chwiw, yn 1988, i chwilota am gerddi o bapurau Môn ac yn *Y Clorianydd*, Rhagfyr 3, 1952, gwelais ran o gerdd 'Rownd yr Horn' a anfonwyd i'r papur gan weddw'r bardd. Cerdd dau forwr gwallgo ydyw, sef Twm a Dei Morgan.

Dyfynnaf rannau ohoni:

Tyrd Rownd yr Horn Dei Morgan
I weld môr mawr o'i go',
I feddwi'n ffŵl heb ddiod
A'th fennydd fel llyn tro;
I weled boliau cychod
Yn glir o'r dŵr am dro,
A thonnau gwallco'n llyfu'r sêr,
A rhewi d'esgyrn at y mêr.

Tyrd yno i deimlo'r halen
Yn llosgi yn dy waed
A'th long, fel teisen briodas
Dan rew prydferthaf gaed
Ar foroedd gwyllt cynddeiriog
Yn drysu dan dy draed;
A chrwydro wedi rhewi'n gorn,
Fel dafad bendro, Rownd yr Horn.

Ac ymaith ffy dy hiraeth,
Am barlwr clyd y 'Crown',
Pan weli Siani'n troedio'r
Gwendonnau dan ei gown,
A'i chynffon llaes o berlau
Ar daen ymhell, nes down
I Rio hardd yn llawn o lo
A Rownd yr Horn i Vallipo —
Bydd hwn i mi yn chweched tro.

Ond, O Dei, i'r gwir forwr
Dyw'r Horn ond syrcas gref
Lle tyn yr Iôr Ei benffrwyn
Oddiar Ei donnau Ef,
A'u gyrru fel ebolion
A'i chwip yn hollti'r nef,
Ac organ Ei filodfa fawr
Yn chwarae miwsig pêr bob awr.

Yna fe gawn 'Cân Mêt y Nesta' o'r ail ddarn — cân yn ôl W. J. Gruffydd sy'n eithriadol yn ei realaeth arw, ei air ef amdani ydyw *macabre*:

O bob rhyw wyrth a ddengys
Yr Iôr ar gefn y lli,
Rhyfeddod mwya'r moroedd
Ryw ddydd a welais i.
A Nesta'n rhedeg hefo'r sgôl
Drwy fôr yr Horn, dri mis yn ôl.

Ond ar ei thâl mi welais
Drwy luwch y tonnau mawr,
Ddau forwr llwm yn gorwedd
A'u pennau'n drist i lawr,
Wrth ddarn o 'fow' hen sgwner wen
A'r enw 'Siani' ar ei ben.

Dygasai adar barus
Yr Horn eu llygaid hwy,
A gruddiau nid oedd iddynt
Na chnawd i'w hochrau mwy,
Ond chwarddent pan ddôi 'r rhewynt cas
I gosi yn y tyllau glas.

Pan âi beiddgarach gwaneg
Na'r lleill i olchi'u gwallt,
A llenwi'u safnau oerion
Â gwymon a dŵr hallt, —
Clywn y pryd hwn orfoledd ffri
O'r graig yn cerdded dros y lli,
A hwyl fel hyn a glywais i:

'Mae'r ffyliaid adre'n meddwl
Y down ni'n ôl ryw dro
A ninnau wedi boddi
Ers mis, Ho, Ho, Ho, Ho.

A heb fynd eto i'n beddau,
Yn gwrando ar sŵn yr Horn,
A'r gwynt yn cosi'n hesgyrn,
A rhewi'n traed yn gorn.

Mae 'Siani' yn y gwaelod
A'i llwyth i gyd dan glo,
A chwrw yn ei chasgiau
A neb i'w yfed o.

Ho, Ho, a neb ei eisiau,
Mae'r criw yn ddigon chwil
Ers pan aeth 'Siani' i'r gwaelod
A cherrig dan ei chil.

Daw dwy fôr-forwyn dyner
A'u gwallt o wymon oer
A'u dwylo am ein gyddfau
Bob noson wyllt ddi-loer.

A ninnau'n dau yn crio
Yn uwch na gwaedd yr hin
Am nad oes inni wefus
I'w dodi wrth eu min.

Dywedwch wrth y morwyr
Ym mharlwr bach y 'Crown'
Pe rhoddent inni'r ddaear
Am ddod yn ôl, na ddown.

Fod morio'n nefoedd yma,
A marw yn nefoedd fwy,
Fod Twm a Dei am aros
I hwylio'r Horn byth mwy.

* * * *

DYWED J. T. Jones, fel Cynan, am y gerdd hon fod blas yr heli arni o'i llinell gyntaf a chlywir angerdd eithaf môr a morwyr ynddi. Oni bu O. J. Williams mewn ysgol dda yng nghwmni rhai o longwyr Porthmadog?

Canu i'r môr yn ei ddewinio ffals a'i ymgiprys gwaedlyd hallt a wna yn ôl J. T. Jones — 'does ryfedd iddo ddewis 'Y Gwaed Hallt' fel ffugenw yn Eisteddfod Wrecsam.

Ni welais i ddim o waith y bardd ar wahân i'r ddwy bryddest a'i delyneg fuddugol 'Ar y Palmant'. Tybed lle'r aeth y gweddill o'i gerddi?


# AR WERTH

***The History of the Great Sessions in Wales 1542-1830 together with the lives of the Welsh Judges . . .;*** W. R. Williams. Aberhonddu, 1899. Copi rhif 50 o argraffiad cyfyngedig o 300.
***A Century of Welsh Music;*** John Graham. Llundain, 1923.
***Richard Price: philosopher and apostle of liberty;*** Roland Thomas. Rhydychen, 1924.
***Anfarwol Werin;*** *nofel yn ymdrin â helyntion Rwsia yn 1941;* F. Grossman, wedi ei chyfieithu o'r Rwseg gan T. Hudson-Williams. Aberystwyth, 1945.
***Y Gwyliedydd,*** 1835.
***Calendr Prifysgol Cymru;*** *rhifynnau cynnar.*
**Mrs MARI ELLIS, 4 Laura Place, Aberystwyth, Dyfed SY23 2AU. Ffôn: 0970 617171.**

* * * *

***History of Pontypridd and Rhondda Valleys;*** Owen Morgan (Morien). Pontypridd, 1903. £37.50.
***Treasures of the Mawddach;*** H. J. Owen. Y Bala, 1950. £12.95.
Prisiau yn cynnwys cludiant.
**JOHN MEURIG JONES, Brynawelon, Swyddffynnon, Ystrad Meurig, Ceredigion, Dyfed SY25 6AL.**

* * * *

***Erewhon;*** Samuel Butler. Gwasg Gregynog, 1932.
***Welsh Botanology . . . a systematic catalogue of the native plants of Anglesey . . .;*** Hugh Davies. Llundain, 1813.
**Y Parchg EUROS WYN JONES, Helyg, Ffordd y Fron, Llangefni, Gwynedd LL77 7HB. Ffôn: 0248 723240.**